Ombwdsmon Ombudsman
Cymru • Wales

# Ymateb i ymgynghoriad: Adolygiad o'r Trefniadau ar gyfer Deisebau

Enw Sefydliad: Senedd Cymru: Pwyllgor Deisebau

Cyflwynwyd: 22 Medi 2025

Fel Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC), mae gennym dri phrif nod.

- Rydym yn ymchwilio i gwynion am wasanaethau cyhoeddus.
- Rydym yn ystyried cwynion am gynghorwyr sy'n torri'r Cod Ymddygiad.
- Rydym yn ysgogi gwelliant systematig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru.

Rydym yn annibynnol, yn ddiduedd, yn deg ac yn agored i bawb sydd ein hangen.
Mae ein gwasanaeth yn rhad ac am ddim.

## Sylwadau cyffredinol

Diolch i chi am ein gwahodd i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Credwn yn gryf yng ngwerth y broses ddeisebu o ran cryfhau llais a dylanwad dinasyddion dros bolisi cyhoeddus.

Yn hanesyddol, byddai'r Pwyllgor yn ein gwahodd o bryd i'w gilydd i gynnig barn ar ddeiseb a dderbyniwyd. Fodd bynnag, ni dderbyniwn geisiadau o'r fath yn rheolaidd. Byddem bob amser yn croesawu cyfleoedd i gefnogi'r Pwyllgor, trwy roi barn yn seiliedig ar dueddiadau ein gwaith achos neu dystiolaeth a gasglwyd trwy ein gwaith gwella rhagweithiol.

Byddem hefyd yn awgrymu bod y Pwyllgor yn ystyried mabwysiadu ychydig o newidiadau i helpu i wella hygyrchedd y broses a rheoli disgwyliadau. Gallai'r rhain gynnwys:

- cynnwys gwybodaeth gliriach am yr amserlenni. Ar hyn o bryd, nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn rhwydd ar wefan y Pwyllgor.
- cyhoeddi gwybodaeth am ba gyfran o'r deisebau a dderbynnir sy'n cael eu trafod â Llywodraeth Cymru / eu derbyn i'w trafod yn y Senedd.
- cyhoeddi gwybodaeth am ba gyfran o ddeisebau a dderbynnir sy'n arwain at newid polisi.

Yn olaf, i osgoi amheuaeth, hoffwn danlinellu ein bod yn croesawu'r rheolau llawn sy'n llywodraethu'r broses ddeisebu gan ddatgan:

*"Nid yw deisebau sy'n honni achosion penodol o gamweinyddu neu fethiant gwasanaeth gan gyrff cyhoeddus yn dderbyniadwy. Yn yr achosion hyn, cynghorir deisebwyr i gysylltu â'r Ombwdsmon i fwrw ymlaen â'u pryderon."*

Credwn fod y cymal hwn yn gweithio'n dda a dylid ei gadw heb ei ddiwygio.

## Sylwadau cloi

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.




### Michelle Morris

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**


Medi 2025